Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Holiadur cais am dystiolaeth

Ymchwiliad Aflonyddu ar sail Anabledd

Cais am Dystiolaeth

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission

“Nid oes yr un hawl ddynol yn bwysicach na’r hawl i fyw bywyd diogel mewn diogelwch. Mae absenoldeb hynny yn ein rhwystro rhag byw ein bywydau’n llawn. Ac i rai, mae absenoldeb hynny wedi arwain at golli bywyd. Yn aml caiff llawer o bobl anabl Prydain eu hamddifadu o’r hawl i fyw bywyd diogel mewn diogelwch.”

Trevor Phillips – ‘Hyrwyddo bywyd diogel mewn diogelwch i bobl anabl 2009’

Cais am Dystiolaeth

Mae’r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (y Comisiwn) yn cynnal ymchwiliad i aflonyddu ar sail anabledd. Mae’r Ymchwiliad yn cynnwys bwlio a throsedd casineb ac aflonyddu ar bobl anabl, eu teuluoedd, ffrindiau neu gymdeithion. Hoffem glywed gan unrhyw un sydd wedi’u haflonyddu, a chan sefydliadau sy’n gweithio gyda/drostynt, gan gynnwys sefydliadau’r sector gwirfoddol a chymunedol, awdurdodau cyhoeddus (fel cynghorau lleol, yr heddlu, tai, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg) a chwmnïau trafnidiaeth gyhoeddus.

Eich profiad

Os ydych chi wedi dioddef achos o aflonyddu oherwydd eich anabledd, neu fod rhywun agos atoch wedi’i effeithio, cysylltwch â ni. Hoffem glywed gan bobl sy’n fyddar neu’n anabl, gan gynnwys rhai â chyflyrau iechyd meddwl a chyflyrau iechyd hirdymor, yn ogystal â’u teuluoedd, ffrindiau neu gymdeithion. Rydym eisiau gwybod beth ddigwyddodd a beth wnaeth awdurdodau cyhoeddus a chwmnïau trafnidiaeth gyhoeddus ei wneud - neu ddim ei wneud - i’ch helpu. Bydd eich profiadau - cadarnhaol neu negyddol - yn helpu’r Comisiwn i ddangos beth mae’r heddlu, gwasanaethau cymdeithasol, ysgolion, cwmnïau bysiau ac asiantaethau eraill yn gallu’i wneud i atal achosion o aflonyddu ar bobl anabl mewn mannau cyhoeddus a thu ôl i ddrysau caeedig. Os nad ydych chi’n sicr beth i’w ddweud wrthym, mae gennym holiadur (amgaeedig) i’ch helpu.

Gwaith eich sefydliad

Os yw'ch sefydliad chi'n gweithio dros bobl sy'n fyddar neu'n anabl, gan gynnwys rhai â chyflwr iechyd meddwl, neu'n helpu pobl sydd wedi dioddef aflonyddu, hoffem glywed gennych hefyd. Bydd eich profiad a'ch gwybodaeth o ymdrin ag achosion o aflonyddu ar sail anabledd, ynghyd ag unrhyw waith rydych chi'n ei wneud i atal neu fynd i'r afael â hynny, yn amhrisiadwy. Hoffem gael ymateb gan:

- Sefydliadau sy'n gweithio gyda a thros bobl fyddar neu anabl, gan gynnwys rhai â chyflyrau iechyd meddwl neu gyflyrau iechyd hirdymor
- Sefydliadau sydd mewn cysylltiad â phobl sydd wedi profi aflonyddu ar sail anabledd fel asiantaethau cynghori, llochesi a sefydliadau sy'n cynnig cymorth i ddioddefwyr trosedd
- Awdurdodau cyhoeddus
- Cwmnïau trafnidiaeth gyhoeddus
- Academyddion
- Unigolion â gwybodaeth a phrofiad yn y maes hwn.

Rhoi tystiolaeth

Mae sawl ffordd o gyflwyno tystiolaeth i'r Ymchwiliad:

- Anfon eich ymateb ar ffurf dogfen Word neu pdf, mewn fformat hawdd ei ddarllen neu Iaith Arwyddion Prydain yn y post neu ar e-bost
- Cwblhau holiadur ar ein gwefan, trwy e-bost neu ein llinell gymorth (ar gyfer profiadau a straeon unigol yn unig)
- Trwy ffonio ein llinell gymorth neu'r gwasanaeth ffôn testun.

Mae'r manylion cyswllt ar gael ar dudalen 5.

Anfonwch eich tystiolaeth erbyn **dydd Gwener 10 Medi 2010.**

Unigolion sydd wedi dioddef aflonyddu

Er bod croeso i chi roi tystiolaeth yn ddienw, byddai'n ddefnyddiol inni gael eich enw a'ch manylion cyswllt fel y gallwn gysylltu â chi am ragor o wybodaeth os oes angen. Byddwn yn trin eich gwybodaeth bersonol yn gyfrinachol (darllenwch ein datganiad cyfrinachedd ar ddiwedd y ddogfen hon).

Efallai y byddai'n well gan unigolion gyflwyno tystiolaeth trwy lenwi'n holiadur yn www.equalityhumanrights.com/disabilityharassmentfi neu trwy gysylltu â'r llinell gymorth ar y rhifau isod, neu trwy e-bostio disabilityharassmentfi@equalityhumanrights.com

Os ydych chi angen unrhyw addasiadau rhesymol eraill, cysylltwch â ni i drafod eich anghenion.

Sefydliadau a phartïon â buddiant

Mae gennym ddiddordeb penodol mewn clywed am:

- ddulliau effeithiol o atal a dileu aflonyddu ar sail anabledd
- mynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi aflonyddu ar sail anabledd gan gynnwys rhagfarn ac agweddau negyddol
- cynnwys pobl anabl wrth atal a dileu aflonyddu ar sail anabledd a mynd i'r afael â'r rhesymau drosto
- galluogi pobl anabl i adrodd yn effeithiol am achosion o aflonyddu ar sail anabledd
- profiadau ac anghenion gwahanol pobl anabl sy'n gysylltiedig â'u math o nam, eu hoedran, rhywedd, hunaniaeth o ran rhywedd, hil neu ethnigrwydd, crefydd neu gred a chyfeiriadedd rhywiol.

Nid oes rhaid i dystiolaeth fynd i'r afael â phob pwynt unigol. Er enghraifft, gall ganolbwyntio ar fynd i'r afael â'r rhesymau dros aflonyddu neu gamau corff cyhoeddus penodol.

Dylai tystiolaeth gan sefydliadau neu gyrff cyhoeddus:

- nodi enw'r sefydliad
- cynnwys gwybodaeth sy'n nodi a yw'r sefydliad yn darparu gwasanaethau i grwp/iau penodol
- cynnwys cyfeiriad post llawn a manylion cyswllt
- dechrau gyda chrynodeb
- cynnwys tudalennau a pharagraffau wedi'u rhifo.

Sut i ymateb:

- trwy'r e-bost: disabilityharassmentfi@equalityhumanrights.com
- trwy'r ffacs: 0161 829 8110 gan ysgrifennu 'Disability Harassment Inquiry' yn glir ar y neges
- trwy bostio i'r cyfeiriad rhadbost canlynol:

  Disability Harassment Inquiry
  Equality and Human Rights Commission
  FREEPOST RRLL-GHUX-CTRX
  Arndale House, Arndale Centre
  Manchester, M4 3AQ

- trwy'r llinell gymorth:

Cymru	Ffôn: 08456 048 810 Ffôn testun: 08456 048 820
Lloegr	Ffôn: 08456 046 610 Ffôn testun: 08456 046 620
Yr Alban	Ffôn: 08456 045 510 Ffôn testun: 08456 045 520

Ymchwiliad Aflonyddu ar sail Anabledd
Ffurflen ymateb

Byddwn yn cadw'ch gwybodaeth bersonol yn gyfrinachol

Sut bynnag y byddwch yn cyflwyno'ch tystiolaeth, byddai'n ddefnyddiol pe baech yn llenwi'r manylion yn adran 1 isod a seilio'ch ymateb ar gwestiynau adran 2.

Adran 1: Eich manylion cyswllt

Byddai'n ddefnyddiol dros ben pe baech yn darparu'ch enw a'ch cyfeiriad rhag ofn ein bod angen mwy o wybodaeth. Byddwn yn trin hyn yn hollol gyfrinachol, wrth gwrs (darllenwch ein datganiad cyfrinachedd ar ddiwedd y ddogfen hon).

Os ydych chi'n dymuno parhau'n ddienw, gadewch yr adran hon yn wag.

Enw:
Cyfeiriad post llawn:

Ffôn/Ffôn testun:	Ffôn symudol:	Ffacs:
E-bost:		
Ydych chi'n ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad?		
Os ydych chi'n ymateb ar ran sefydliad, beth yw ei enw?:		
Ydy'ch sefydliad chi'n darparu gwasanaethau i grwp/iau penodol? Os felly, pa rai?		

Adran 2: Eich tystiolaeth

Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn derbyn tystiolaeth yn seiliedig ar y cwestiynau isod. Does dim rhaid i chi ateb bob cwestiwn.

1. Rhowch grynodeb o'ch ymateb

2. Beth yw'r dulliau effeithiol o atal a dileu aflonyddu ar sail anabledd, yn eich barn chi?
3. Sut mae mynd i'r afael â'r rhesymau sy'n arwain at aflonyddu ar sail anabledd, gan gynnwys rhagfarn ac agweddau negyddol?

4. Sut rydych chi'n cynnwys pobl anabl wrth atal a dileu aflonyddu ar sail anabledd, mynd i'r afael â'r rhesymau drosto a gwella'r ymatebion sy'n dod i law?

5. Beth yw'r dulliau llwyddiannus o alluogi pobl anabl i adrodd yn effeithiol am achosion o aflonyddu ar sail anabledd?

6. Beth rydych chi'n ei wybod am brofiadau ac anghenion gwahanol pobl anabl sy'n dioddef aflonyddu ar sail y math o nam sydd ganddynt, eu hoedran, rhywedd, hunaniaeth o ran rhywedd, hil neu ethnigrwydd, crefydd neu gred a chyfeiriadedd rhywiol?
7. Rhowch unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth bellach yma

Trin data a chyfrinachedd

Bydd pob gwybodaeth yn cael ei thrin yn sensitif a gofalus.

Mae unigolion a sefydliadau sy'n rhoi tystiolaeth yn gwneud hynny yn ôl y ddealltwriaeth y bydd y Comisiwn yn ei defnyddio at ddibenion yr Ymchwiliad. Mae'r Comisiwn yn ymwybodol o'i rwymedigaethau o ran gwybodaeth bersonol a phreifatrwydd dan y Ddeddf Diogelu Data a'r Ddeddf Hawliau Dynol. Bydd gwybodaeth bersonol yn cael ei thrin yn gyfrinachol ac yn cael ei defnyddio at ddibenion yr Ymchwiliad yn unig.

Mae rheolau cyfreithiol penodol yn berthnasol i dystiolaeth a gyflwynir i Ymchwiliadau. Mae hyn yn golygu mai dim ond dan amgylchiadau cyfyngedig y gallai'r Comisiwn ddatgelu gwybodaeth sy'n nodi unigolyn neu sefydliad. Dim ond at ddibenion yr Ymchwiliad y bydd y comisiwn yn cyhoeddi darnau o'r dystiolaeth a dderbynnir, a hynny os oes angen. Os ydym yn bwriadu cyhoeddi tystiolaeth sy'n datgelu pwy ydych chi neu'ch sefydliad, byddwn yn cysylltu â chi ymlaen llaw i drafod hyn. Cofiwch nodi pa elfen o'ch tystiolaeth nad ydych am inni ei chyhoeddi.

Ceir rhagor o wybodaeth am sefyllfa'r Comisiwn ar gyfrinachedd a datgelu gwybodaeth isod.

Os ydych chi'n dal i boeni am unrhyw beth ar ôl darllen y dudalen hon, a'ch bod am drafod y mater yn gyfrinachol, e-bostiwch dîm yr ymchwiliad: disabilityharassmentfi@equalityhumanrights.com

Mae Deddf Cydraddoldeb 2006 yn cyflwyno rheolau penodol sy'n ymwneud â gwybodaeth a dderbynnir gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wrth gynnal ymchwiliad dan adran 16 y Ddeddf:

- yn ôl adran 6 y Ddeddf Cydraddoldeb, ni ddylai'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ddatgelu gwybodaeth a gafodd fel rhan o ymchwiliad, heblaw am y rhesymau canlynol:
    - gyda chaniatâd pob unigolyn sy'n gysylltiedig â'r wybodaeth dan sylw
    - yn adroddiad yr ymchwiliad

- at ddibenion cyflawni swyddogaethau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol o ran ei bwerau gorfodi
- fel rhan o orchymyn llys neu dribiwnlys
- os yw'r wybodaeth wedi'i chadw'n anhysbys fel nad oes modd adnabod y sawl sy'n gysylltiedig â hi
- at ddibenion achos sifil neu droseddol y mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn rhan ohono
- os cafodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y wybodaeth dros 70 mlynedd cyn y dyddiad datgelu.

- mae adran 16 y Ddeddf Cydraddoldeb yn dweud pa reolau sy'n berthnasol pan fydd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol am gofnodi yn adroddiad yr ymchwiliad, dystiolaeth neu ganfyddiadau anffafriol am weithgareddau unigolyn penodol neu unigolyn y gellir ei adnabod. Mae'r rheolau hyn yn cynnwys rhoi cyfle i'r unigolyn hwnnw wneud sylwadau ysgrifenedig ar yr adroddiad drafft.

Ni fyddwn yn datgelu gwybodaeth a dderbyniwyd gennych chi neu'ch sefydliad yn ystod yr ymchwiliad, oni bai ei fod yn perthyn i'r amgylchiadau cyfyngedig a nodir yn adran 6(3) y Ddeddf Cydraddoldeb. Er hynny, efallai y byddem yn ei chynnwys yn adroddiad yr ymchwiliad, a gallai olygu y bydd modd adnabod chi neu'ch sefydliad. Os nad ydych yn dymuno inni gynnwys gwybodaeth amdanoch chi neu'ch sefydliad yn adroddiad yr ymchwiliad, cysylltwch â ni i drafod hyn. Byddwn yn sensitif i unrhyw bryderon fydd gennych am ddatgelu gwybodaeth, ac rydym yn gobeithio y byddwch yn teimlo'n ddigon hyderus wrth adrodd am unrhyw faterion wrthym, gan gynnwys unrhyw faterion hawliau dynol sensitif y gallech fod wedi'u profi neu'n gwybod amdanynt.

www.equalityhumanrights.com/disabilityharassmentfi

Comisiwn
Cydraddoldeb a
Hawliau Dynol

Equality and
Human Rights
Commission